Adroddiad ar gyfer

# Playdays Nursery

The Spinney
Fronhir
Trefyclo
Powys
LD7 1HT

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Playdays Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Playdays Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Hannah Price |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | |
| Person â chyfrifoldeb | Caryn Lewis; Lehanne Healy; Jemma Croker; Hannah Price |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Ystod oedran y plant | 3 mis hyd at 4 oed (oedran ysgol) |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 5.30pm |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 22 Ionawr 2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22 Ionawr 2020 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 21/10/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Datblygu cyfleoedd ymhellach i ddysgu am ddiwylliannau eraill a chael profiad ohonynt

A2. Adolygu ac ymgorffori cyfarfodydd goruchwylio un i un rheolaidd ar gyfer y staff

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Da

Caiff dymuniadau a dewisiadau bron pob plentyn eu parchu. Mae'r plant yn rhannu eu syniadau, eu hanghenion a'u profiadau ag eraill yn hyderus gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu llafar a dieiriau. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt, gan eu helpu i ennyn hyder i gyfathrebu. Er enghraifft, caiff diddordebau'r plant eu cofnodi a'u defnyddio wrth gynllunio gweithgareddau. Mae bron pob un o'r plant yn symud yn rhydd o gwmpas eu hamgylchedd, gan wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch ble y maent am chwarae a'r eitemau y maent am chwarae â nhw. Gallant ddewis a hoffent chwarae dan do neu yn yr awyr agored, a chaiff llif rhydd ei annog ar rai adegau yn ystod y dydd.

Mae bron pob un o'r plant wedi setlo ac yn ymdopi'n dda wrth gael eu gwahanu. Mae'r rhai nad ydynt wedi setlo yn cael cymorth a sicrwydd gan yr ymarferwyr yn brydlon. Maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, maent yn gwenu, yn chwerthin, yn canu ac yn ymuno â gweithgareddau'r diwrnod yn gadarnhaol. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn â'r drefn feunyddiol. Er enghraifft, roedd y plant iau yn gwybod ei bod hi'n amser byrbryd pan ganodd y seiniwr, gwnaethant gyhoeddi 'it's snack' a dechrau tacluso. Mae bron pob un o'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu gan eu bod yn cael gofal sy'n eu cefnogi nhw a'u hanghenion. Maent yn mwynhau edrych ar luniau o'u profiadau a'u rhannu â'r ymarferwyr.

Mae bron pob un o'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn gwrando ar eraill yn ystod amser stori ac maent yn dysgu sut i rannu wrth chwarae â'r teganau. Mae'r plant, eu cyfoedion a'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd. Er enghraifft, mae'r plant yn cyfarch yr ymarferwyr yn frwdfrydig pan fyddant yn cyrraedd y gwaith gan ddweud “hello there” neu rannu newyddion â'r ymarferwyr am bethau a ddigwyddodd y diwrnod cynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd neu gyda'i gilydd, gan ddangos diddordeb yn yr hyn y mae'r plant eraill yn ei wneud. Mae cyfeillgarwch amlwg a chysylltiadau agos yn datblygu, ac mae'r plant hŷn yn dechrau dangos eu bod yn poeni am bobl eraill. Er enghraifft, pan oedd plentyn yn aros i fynd i lawr y llithren, gofynnodd i ffrind arall symud oddi wrth waelod y llithren fel nad oedd yn taro ei ffrind.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu yn fawr iawn. Maent yn mynegi eu mwynhad ac yn awyddus i rannu eu chwarae â'r bobl o'u cwmpas. Er enghraifft, ar ôl chwarae â garej a cheir, aeth plentyn â'r teganau draw at yr ymarferydd i ddangos iddi sut roedd y ceir yn mynd i lawr y ramp ac i ofyn iddi gymryd rhan. Maent yn cymryd rhan yn y gweithgareddau am gyfnod o amser sy'n briodol i'w hoedran. Mae bron pob un

o'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae ac yn dangos chwilfrydedd yn yr adnoddau, y gweithgareddau a'r ardaloedd chwarae sydd ar gael iddynt. Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol ar gyfer eu hoedran ym mhob rhan o'r feithrinfa. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a arweinir gan oedolion, yn ogystal â gweithgareddau chwarae annibynnol. Gwelsom grŵp o blant yn dewis gwrando ar stori ac ymuno yn y sesiwn wrth i eraill edrych ar lyfrau'n annibynnol.

Mae bron pob un o'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, eu chwarae a'u dysgu. Maent yn hyderus wrth symud o gwmpas eu hamgylchedd yn annibynnol, gan wneud dewisiadau o ran yr eitemau y maent eisiau chwarae â nhw. Caiff llawer o'r plant eu hannog i fod yn gwrtais, ac maent yn defnyddio geiriau Cymraeg syml gyda rhywfaint o eiriau syml gan yr ymarferwyr i'w hannog. Er enghraifft, maent yn gofyn am ddiod ac yn dweud ‘diolch’. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Cânt eu hannog i olchi eu dwylo a gweini eu byrbrydau eu hunain.

## Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae bron pob un o'r plant yn ffynnu mewn amgylchedd diogel a magwrus lle mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd chwarae. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio brawddegau, geiriau ac ystumiau syml. Er enghraifft, maent yn siarad yn hyderus am eu lluniau teulu sydd wedi'u harddangos yn y gornel gartref. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ar yr ymarferwyr gan ganolbwyntio'n fwyfwy, ac maent yn ymateb i gyfarwyddiadau syml, er enghraifft pan fydd yn amser iddynt eistedd i gael eu byrbryd. Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau Cymraeg da. Er enghraifft, mae ychydig ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol wrth chwarae drwy gyfrif pwmpenni ar y glorian gydbwyso.

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu sgiliau llythrennedd cynnar yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau; maent yn troi'r tudalennau'n annibynnol ac yn cymryd rhan mewn sgyrsiau am y lluniau yn y straeon. Yn ystod amseroedd bwyd, mae tua hanner y plant yn dod o hyd i'w henwau'n annibynnol ar eu mat bwrdd. Mae'r rhan fwyaf yn arbrofi'n gadarnhaol â gwneud marciau, gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol megis paent, sialciau, pinnau ysgrifennu a phensiliau, i dynnu lluniau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau mathemategol da ac mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith fathemategol yn ddigymell wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn trafod y pwmpenni o feintiau gwahanol ac yn chwilfrydig o ran pa un allai fod drymaf. Wrth godi'r hadau allan o'r pwmpenni, mae llawer o'r plant yn eu cyfrif ac yn archwilio pa bwmpenni sy'n llawn ac yn wag â'r hylif hudolus porffor roeddent wedi'i ychwanegu'n gynharach.

Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau digidol effeithiol ac yn eu defnyddio'n dda wrth chwarae. Er enghraifft, mae tua hanner y plant yn archwilio ac yn arbrofi â thaflu cysgodion yn y gornel ddarllen drwy ddefnyddio'r tortshis, gan eu troi ymlaen a'u diffodd i weld y newidiadau yn y golau a'r tywyllwch. Caiff ychydig ohonynt eu cefnogi i ddefnyddio'r meicroffonau a'r seinydd i berfformio eu hoff ganeuon yn yr ardal ddysgu awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu sgiliau corfforol cryf. Mae tua hanner y plant yn reidio beiciau cydbwysedd yn fedrus o amgylch yr ardd, gan ymdrin â rhwystrau ac arwynebau gwahanol. Yn yr awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn archwilio eu hamgylchedd yn hyderus drwy gario pwmpenni trwm, cymysgu hylifau hudolus a chario dŵr mewn bwcedi trwm. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau motor manwl yn llwyddiannus; yn ystod amser byrbryd, maent yn defnyddio cyllyll bach gan ddangos rheolaeth gynyddol ac maent yn dangos cryn bleser wrth baratoi byrbrydau i'w ffrindiau.

Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau personol da, megis gwisgo eu hesgidiau a golchi eu dwylo cyn amser byrbryd. Mae llawer ohonynt yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol ac maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn helpu ei gilydd i fynd ar y siglen rhwyd fawr a dod oddi arni, cyn gwthio ei gilydd er mwyn mwynhau siglo yn ôl ac ymlaen.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn annog y plant i olchi eu dwylo, gan helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Mae ganddynt wybodaeth dda am y polisi a'r gweithdrefnau diogelu sydd ar waith, sy'n eu galluogi i hybu lles y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi damweiniau, digwyddiadau, anafiadau presennol a meddyginiaethau a gaiff eu rhoi a chaiff y cofnodion eu cydlofnodi gan y rhieni. Gwnaethant esbonio'n hyderus beth y byddent yn ei wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dilyn polisïau'r lleoliad ac yn sicrhau y caiff gwiriadau glanhau a diogelwch dyddiol eu cwblhau a'u cofnodi. Maent yn casglu gwybodaeth am anghenion a chaniatadau unigol y plant er mwyn cefnogi'r plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm, gan rannu negeseuon gan rieni a siarad â'i gilydd wrth iddynt symud o gwmpas yr ardaloedd chwarae. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae bron pob ymarferydd yn cefnogi'r plant yn effeithiol er mwyn annog rhyngweithio ac ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn gyson, sy'n annog

y plant i ddilyn y rheolau ac mae'n eu helpu i deimlo ymdeimlad o falchder. Er enghraifft, pan safodd rhai o'r plant mewn llinell wrth y drws i aros i fynd allan, rhoddodd yr ymarferwyr lawer o ganmoliaeth iddynt a wnaeth annog y plant eraill i sefyll wrth y drws. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn dangos diddordeb ac yn gofyn cwestiynau priodol, gan helpu'r plant i deimlo'n hyderus i ryngweithio. Maent yn gweithredu fel modelau rôl da ac yn defnyddio dulliau tynnu sylw, cwestiynau neu ddewisiadau amgen i annog yr ymddygiad y maent am ei weld. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth a gwybodaeth gref ynghylch datblygiad plant, ac adlewyrchir hyn yn y ffordd y maent yn rheoli ymddygiad y plant. Maent yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando o ddifrif ac yn ymgysylltu â'r plant, gan wneud iddynt deimlo'n falch a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Maent yn defnyddio arsylwadau i gefnogi datblygiad y plant ac i gynllunio ar gyfer eu camau nesaf. Mae'r ymarferwyr yn rhannu datblygiad y plant ac yn cydweithio i gynllunio pan fydd y plant yn barod i symud o un ystafell i'r nesaf. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth dda ac eang o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn asesu'r ffordd y mae'r plant yn dysgu ac yn ymgysylltu â theganau, adnoddau a gweithgareddau er mwyn helpu i gynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol. Caiff y wybodaeth hon, ynghyd â diddordebau'r plant, eu camau nesaf a dathliadau, ei defnyddio i helpu i gynllunio gweithgareddau chwarae a dysgu yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn cofnodi ac yn rhannu cyflawniadau a gweithgareddau'r plant â'r rhieni. Mae prosesau effeithiol ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'r broses i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am ddatblygiad y plant.

## Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae'r ymarferwyr yn gyfarwydd iawn ag anghenion a chryfderau unigol y plant ac maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Drwy arsylwadau ac asesiadau, maent yn nodi'n effeithiol pan fydd angen cymorth neu her ychwanegol ar blant ac maent yn cynllunio cymorth unigol yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn hysbysu'r rhieni'n rheolaidd am gynnydd eu plentyn gan ddefnyddio adnodd ar-lein.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang ac effeithiol o brofiadau ymarferol ac ystyrlon. Mae'r staff yn dilyn diddordebau a chwilfrydedd y plant yn fedrus. O ganlyniad, mae digon o gyfleoedd i gael profiadau go iawn sy'n galluogi'r plant i ddatblygu eu hannibyniaeth a mwynhau chwarae heb i unrhyw un darfu arnynt. Mae'r ymarferwyr yn modelu gweithgareddau'n dda ac yn cefnogi datblygiad llafaredd y plant yn effeithiol drwy ddefnyddio geirfa fel “slimy” wrth dynnu'r hadau a'r cnawd o'r pwmpenni.

Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd cynnes a chefnogol lle caiff llwyddiannau'r plant eu dathlu. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, gan farnu'n fedrus pryd i gynnig arweiniad a phryd i adael iddynt fod yn annibynnol. Mae'r dull gweithredu hwn yn meithrin hyder ac yn grymuso'r plant i roi cynnig ar brofiadau newydd yn llawn brwdfrydedd.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio i ystyried diddordebau'r plant ac ymateb iddynt. Er enghraifft, maent yn ymateb i frwdfrydedd y plant dros greu hylifau hudolus o liwiau gwahanol, gan ddefnyddio hyn yn fedrus fel cyfle i ddatrys problemau drwy ystyried sut i gymysgu lliwiau a chreu hylifau goleuach a thywyllach. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i sicrhau y caiff sgiliau newydd eu cyflwyno drwy brofiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae'r rhandir yn galluogi'r plant i dyfu llysiau fel ciwcymbr ac ysgewyll. Mae'r profiadau ymarferol hyn yn annog y plant i ofalu am eu hamgylchedd a pharchu'r byd o'u cwmpas.

Mae'r holl ymarferwyr yn magu hyder o ran rhoi gofynion y Cwricwlwm i Gymru ar waith. Maent yn defnyddio adnoddau dan do ac awyr agored yn effeithiol i gefnogi dysgu, gan sicrhau bod y plant yn cael y rhyddid i ddewis gweithgareddau drostynt eu hunain ac i wneud penderfyniadau o ran ble yr hoffent chwarae. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn cynnal eu diddordeb yn eu chwarae am gyfnodau estynedig. Mae'r ystafell wedi'i gosod mewn ffordd feddylgar er mwyn cynnig ystod eang o ardaloedd ac adnoddau i ysgogi diddordebau'r plant. Yn ogystal, mae mannau clyd i'r plant ymlacio, edrych ar lyfrau a chael sgyrsiau tawel.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg priodol, megis ‘bore da’, i gyfarch y plant pan fyddant yn cyrraedd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddysgu am ddiwylliant Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac ymweld â mannau lleol o ddiddordeb megis yr orsaf dân, y parc, y llyfrgell a'r clwb rygbi. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r plant fwynhau dathlu agweddau ar ddiwylliannau eraill drwy ddefnyddio adnoddau priodol. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon ar ddarpariaeth y lleoliad wedi'i datblygu'n llawn.

### Yr Amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae arferion glanhau trylwyr ar waith, sy'n sicrhau y caiff y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau eu rheoli'n dda. Caiff gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd eu cwblhau er mwyn nodi unrhyw beryglon newydd posibl cyn i'r plant gyrraedd. Caiff mynediad i'r lleoliad ei reoli a chaiff ymwelwyr eu cofnodi. Mae ffensys diogel o amgylch yr ardaloedd awyr agored a ddefnyddir gan y plant a chaiff y gatiau eu cadw ar glo, sy'n atal mynediad heb awdurdod ac yn sicrhau na all y plant adael y safle heb oruchwyliaeth. Mae amrywiaeth o asesiadau risg ar waith, gan gynnwys asesiadau cyffredinol ac asesiadau tân, ynghyd ag asesiadau

risg penodol ar gyfer gweithgareddau a theithiau. Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch rheolaidd, yn ogystal â chynnal ymarferion tân rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn fawr ac mae'n cynnwys amrywiaeth dda o ystafelloedd lle gall y plant fwynhau ystod o weithgareddau a phrofiadau diddorol. Mae gan bob ystafell chwarae gyfleusterau addas ac mae digon o le ar y llawr ynddynt i hyrwyddo gweithgareddau a chyfleoedd chwarae corfforol. Er enghraifft, gall y plant ddefnyddio cyfarpar dringo a blociau chwarae meddal. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da ac mae wedi'i addurno gan ddefnyddio lliwiau sy'n creu awyrgylch tawel a hamddenol. Caiff gwaith y plant ei arddangos mewn ffordd ddeniadol, gan roi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Caiff yr ardaloedd awyr agored eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn rhoi amrywiaeth dda o brofiadau a chyfleoedd i'r plant. Mae'r plant yn defnyddio toiledau addas ac mae ardal newid cewynnau briodol ar gael hefyd. Mae ystafell dawel benodol ar gyfer cysgu yn caniatáu i'r plant iau orffwys yn ddiogel, oddi wrth yr ardaloedd lle mae plant yn chwarae. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Mae hyn yn hyrwyddo sgiliau gwneud penderfyniadau'r plant a'u hannibyniaeth.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd addas sy'n briodol i gamau datblygu'r plant. Maent yn darparu adnoddau i bob oedran a cham datblygu, sy'n cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn datblygu amrywiaeth o sgiliau drwy chwarae rôl, chwarae adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd a gweithgareddau creadigol. Maent yn darparu rhai adnoddau a chyfleoedd dysgu sylfaenol sy'n ennyn chwilfrydedd y plant ynglŷn â'r gymdeithas ehangach ac yn meithrin eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae dodrefn a chyfarpar o ansawdd da ar gael i'r plant i hybu eu hannibyniaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, ac maent yn ei rhannu â'r ymarferwyr, y rhieni a sefydliadau partner. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall beth yw disgwyliadau'r arweinwyr. Mae'n amlwg eu bod yn rhoi llesiant y plant wrth wraidd popeth a wnânt. Maent wedi creu amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a chroesawgar, sy'n sicrhau bod y lleoliad yn un hapus i'r plant a'r ymarferwyr. Mae'r arweinwyr wedi llunio polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y lleoliad yn ddidrafferth. Mae cryn bwyslais ar waith tîm, ac mae hyn yn cael effaith dda ar ganlyniadau'r plant. Er enghraifft, mae'r staff wedi datblygu rhannau gwahanol o'r ardd gan ddefnyddio eu cryfderau a'u diddordebau eu hunain.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn glir ac yn rhoi darlun cywir o'r lleoliad. Mae hyn yn cefnogi'r rhieni i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â pha mor addas yw'r lleoliad ar gyfer eu plentyn. Mae gan yr arweinwyr ystod dda o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod

y gwasanaeth yn gweithredu'n ddidrafferth o ddydd i ddydd. Mae'r arweinwyr yn ymgymryd â phrosesau recriwtio trylwyr a diogel. Maent yn cwblhau gwiriadau addasrwydd priodol, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cyn i ymarferwyr ddechrau eu swyddi. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r ymarferwyr yn effeithiol gan sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'u rolau ac yn diwallu anghenion y plant. Maent yn cynnal cyfarfodydd staff a thîm rheolaidd. Nododd yr ymarferwyr eu bod yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu cefnogi ac yn cael cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Maent yn cynnal arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio ffurfiol, gan roi cymorth a chyfle i drafod unrhyw faterion a all godi. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn gallu monitro a rheoli datblygiad y staff bob amser gan nad yw cyfarfodydd goruchwylio yn cael eu cynnal yn rheolaidd bob amser ac ni chânt eu cofnodi bob amser 'chwaith.

Mae'r arweinwyr wedi rhoi gweithdrefnau hunanwerthuso effeithiol ar waith. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i werthuso gwaith y lleoliad a nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu'n effeithiol. Mae cynlluniau gwella'r lleoliad yn cynnwys amrywiaeth synhwyrol o dargedau a blaenoriaethau, sy'n galluogi'r arweinwyr i wella gwaith y lleoliad yn briodol.

Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i'r plant bontio o'r cartref i'r lleoliad ac o'r lleoliad i ysgolion. Er enghraifft, mae ymweliadau setlo wedi'u teilwra yn galluogi'r rhieni a'r plant i ymgyfarwyddo ag arferion y lleoliad ac yn meithrin cydberthnasau buddiol rhwng y rhieni a'r ymarferwyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant a'u hymdeimlad o berthyn. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, megis cymorth i ddatblygu'r amgylchedd ac i roi'r trefniadau asesu newydd ar waith.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn meithrin cysylltiadau cryf â'r rhieni a'r gofalwyr, ac maent yn rhannu gwybodaeth bwrpasol am gynnydd eu plentyn. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad ac maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a gaiff ei rhannu'n rheolaidd drwy ap electronig, lle mae'r ymarferwyr yn rhannu lluniau ac esboniadau ategol o'r hyn y mae'r plant wedi bod yn ei wneud.

Mae'r arweinwyr yn rheoli ac yn dyrannu adnoddau yn bwrpasol er mwyn gwneud gwelliannau. Maent yn defnyddio grantiau a chyllid arall yn effeithiol i ddatblygu'r ddarpariaeth yn y lleoliad ac i ddarparu mwy o gyfleoedd dysgu i'r plant. Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardal awyr agored yn sylweddol sydd wedi cynyddu cyfleoedd i archwilio ac ymgysylltu â byd natur.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant os bydd yr adroddiad hwn yn berthnasol mewn unrhyw iaith, ym mhob achos dan yr amod y caiff ei ailddefnyddio a/neu ei gyfieithu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd, ym mhob achos (gan gynnwys mewn achos o gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025